# Arweiniad i arolygwyr

## Sut rydym yn arolygu gwaith ieuenctid

o fis Medi 2024



Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/cyhoeddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
| --- | --- |


**Cyflwyniad ..... 1**

Diben y llawlyfr arweiniad 'Sut rydym yn arolygu' ..... 1

Y sail gyfreithiol ar gyfer arolygu gwaith ieuenctid ..... 1

Cefndir polisi ..... 1

**Rhan 1: Trefniadau arolygu ..... 3**

Cyflwyniad ..... 3

Ein meddylfryd ..... 5

Disgwyliadau o ran arolygwyr ..... 5

Disgwyliadau o ran darparwyr gwaith ieuenctid ..... 6

Disgwyliadau o ran swyddogion awdurdodau lleol a darparwyr y sector gwirfoddol ..... 6

Y Gymraeg ..... 6

Diogelu, yn cynnwys materion iechyd, diogelwch a lles ..... 6

Ymagwedd at arolygu ..... 7

Yr Ystafell Arolygu Rithwir ..... 8

Y tîm arolygu ..... 8

Cysylltu â'r darparwr cyn yr arolygiad ..... 8

Cynllunio'r arolygiad a pharatoi'r tîm ..... 10

Yn ystod yr arolygiad ..... 10

Ar ôl yr arolygiad ..... 13

Sicrhau ansawdd arolygiadau ..... 14

**Rhan 2: Trefniadau dilynol ar gyfer darparwyr gwaith ieuenctid sy'n achosi pryder sylweddol ..... 15**

Ar ôl yr arolygiad ..... 16

Trefniadau gwella ar ôl yr arolygiad ..... 16

Ymweliadau monitro ..... 17

# Cyflwyniad

## Diben y llawlyfr arweiniad 'Sut rydym yn arolygu'

Mae'r llawlyfr hwn yn amlinellu ein hymagwedd at arolygu gwaith ieuenctid. Mae'n esbonio **sut** rydym yn arolygu. Mae'r arweiniad yn ddeunydd darllen hanfodol i arolygwyr cofnodol a holl aelodau eraill y tîm arolygu. Gallai fod yn ddefnyddiol i ddarparwyr hefyd i ategu eu dealltwriaeth o'r meddylfryd a methodolegau arolygu.

Dylid darllen yr arweiniad ochr yn ochr â 'Beth rydym yn ei arolygu' ar gyfer gwaith ieuenctid, sy'n amlinellu'r fframwaith arolygu. Gall ysgolion ac UCDau ddefnyddio'r arweiniad hwn i weld sut mae arolygiadau'n gweithio a helpu llywio'u prosesau hunanasesu a gwella'u hunain.

Pan fydd yr arolygiad yn nodi arfer a allai fod yn ddefnyddiol i ddarparwyr eraill, bydd arolygwyr yn gwahodd y darparwr i ysgrifennu astudiaeth achos y byddwn yn ei chyhoeddi ar ein gwefan. Pan fydd yr arolygiad yn nodi pryderon pwysig yn ymwneud â safonau, ansawdd y ddarpariaeth a hyfforddiant neu arweinyddiaeth a rheolaeth, byddwn yn trefnu gweithgarwch dilynol i gefnogi gwelliant.

Mae rhagor o wybodaeth am arolygiadau ar gael ar ein gwefan, sef www.estyn.llyw.cymru

## Y sail gyfreithiol ar gyfer arolygu gwaith ieuenctid

Yn y sector ôl-16, mae Deddf Dysgu a Sgiliau (2000) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Arolygydd adrodd ar y canlynol:

- ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant a ddarperir
- y safonau a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant
- ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol y trefnwyd eu bod ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant, yn cael eu rheoli'n effeithlon ac yn cael eu defnyddio i ddarparu gwerth am arian

Mae Estyn yn arolygu hyfforddiant gwaith ieuenctid o dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau (2000) a Rheoliadau Addysg a Hyfforddiant mewn Gwaith Ieuenctid a Chymunedol (Arolygu) (Cymru) 2006.

## Cefndir polisi

Er na chaiff ei lywodraethu'n uniongyrchol gan y polisïau a'r confensiynau canlynol, mae'r llawlyfr arweiniad yn ystyried y canlynol:

- Darperir y sail gyfreithiol ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid a chymorth ieuenctid trwy ddeddfwriaeth addysg, gan ddechrau â Deddf Addysg 1944 ac yn fwy diweddar yn Neddf Addysg 1996. Mae Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Extending-entitlement-support-for-11-to-25-year-olds-in wales Cyfarwyddyd a Chanllawiau (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002) yn ffurfio'r sylfaen ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir yng Nghymru.

- Mae Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid yn wasanaethau addysgol, wedi'u diffinio o dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (Prydain Fawr, 2000), ac mae cyllid cyhoeddus uniongyrchol neu anuniongyrchol yn talu amdanynt. Maent yn cynnwys gwasanaethau a ddarperir mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill fel ysgolion a sefydliadau'r sector gwirfoddol neu a ddarperir yn uniongyrchol gan sefydliadau'r sector gwirfoddol.
- Nododd Strategaeth Genedlaethol Gwaith Ieuenctid Cymru 2014-2018: *"Caiff darpariaeth gwaith ieuenctid ei chynnig trwy wasanaethau ieuenctid. Mae gwaith ieuenctid yn elfen hanfodol o wasanaethau cymorth ieuenctid, sy'n ceisio sicrhau bod gan bob person ifanc 11 i 25 oed fynediad i amrywiaeth o wasanaethau, cymorth a phrofiadau sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu potensial. Yng Nghymru, mae'r gwasanaeth ieuenctid yn hawl gyffredinol. Drwy Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, adran 123, mae Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo awdurdodau lleol I ddarparu, sicrhau darpariaeth, neu gyfrannu at ddarparu gwasanaethau cymorth ieuenctid"* (Llywodraeth Cymru, 2014, tud.4).

- Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro: Adroddiad Terfynol

https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2021-09/achieving-a-sustainable-delivery-model-for-youth-work-services-in-wales-final-report.pdf

- Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion 2022

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 https://www.llyw.cymru/plant-theuluoedd

- Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid 2013

- Map Swyddogaethol Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Gwaith Ieuenctid (cldstandardscouncil.org.uk) 2019

- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2004 yn sylfaen ar gyfer llunio polisïau ar gyfer plant a phobl ifanc http://www.ohchr.org/EN/ProfessionalInterest/Pages/CRC.aspx

- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 https://www.llyw.cymru/deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru

- Blaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu – gan gynnwys:

  Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol: https://www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cydraddoldeb-hiliol-cymru-wrth-hiliol

  Cynllun Gweithredu LHDTC+: https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-gynllun-gweithredu-lhdtc-html

  Cynllun Gweithredu Cymraeg 2050: https://www.llyw.cymru/cymraeg-2050-rhaglen-waith-2021-i-2026-html

# Rhan 1: Trefniadau arolygu

## Cyflwyniad

Mae’r adran hon wedi’i chyflwyno mewn ffordd sy’n adlewyrchu dilyniant y gwaith cyn, yn ystod ac ar ôl arolygiad craidd.

Mae’r arolygydd cofnodol (ACof) yn gyfrifol am gynnal a rheoli’r arolygiad, ac am yr adroddiad arolygu. Er bod yr arweiniad hwn yn canolbwyntio’n bennaf ar rôl yr arolygydd cofnodol, rhaid i holl aelodau’r tîm gydymffurfio â’r un gofynion arolygu.

## Cyd-destun

Mae gwaith ieuenctid yn cael ei gyflwyno mewn amrywiaeth eang o leoliadau. Mae ystod eang o sefydliadau'r sector gwirfoddol yn darparu gwaith ieuenctid ledled Cymru. Mae awdurdodau lleol hefyd yn cyflawni gwaith ieuenctid ac yn aml maent yn gweithio mewn partneriaeth â'r amrywiaeth o sefydliadau sector gwirfoddol sy'n cyflawni gwaith ieuenctid. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu awdurdodau lleol a rhai darparwyr gwaith ieuenctid gwirfoddol yn uniongyrchol ac mae llawer o ddarparwyr yn llwyddo i gael cyllid ar gyfer gwaith ieuenctid o ffynonellau eraill megis sefydliadau elusennol neu'r sector preifat. Bydd arolygiad yn ystyried gwaith ieuenctid a ariennir yn gyhoeddus ac efallai y bydd darparwyr yn profi arolygiad mewn ffyrdd a amlinellir isod. Fel arfer byddwn yn cynnal tua 6 arolygiad bob blwyddyn ac mae'n debygol y bydd 2 o'r rhain fel arfer yn arolygiadau unigol o ddarparwyr gwaith ieuenctid y sector gwirfoddol.

| **Math o arolygiad** | **Beth mae hyn yn ei olygu** |
|---|---|
| Arolygiad unigol o ddarparwr gwaith ieuenctid y sector gwirfoddol | Byddai’r arolygiad yn ystyried profiadau pobl ifanc yn y darparwr gwaith ieuenctid sector gwirfoddol hwnnw. Byddai pob rhan o’r fframwaith arolygu yn cael ei defnyddio ar gyfer yr arolygiad, a byddem yn cyhoeddi adroddiad ar waith y darparwr. Pan mae’r darparwr yn cyflwyno mewn partneriaeth â sefydliad arall trwy gyllid uniongyrchol neu ddarparu staff neu adnoddau, efallai byddwn yn ymweld â’r darparwr arall i arsylwi gwaith gyda phobl ifanc. Gellir sôn am waith unrhyw ddarparwyr partner yn yr adroddiad lle mae’n enghraifft gadarnhaol. |
| Arolygiad unigol o ddarpariaeth gwaith ieuenctid awdurdod lleol | Byddai’r arolygiad yn ystyried profiadau pobl ifanc ar draws y ddarpariaeth a gyflwynir yn uniongyrchol gan yr awdurdod lleol, neu mewn unrhyw ddarpariaeth sy’n cael ei chomisiynu neu’i chyflwyno mewn partneriaeth. Byddai pob rhan o’r fframwaith |

| | |
|---|---|
| | arolygu yn cael ei defnyddio ar gyfer yr arolygiad, a byddem yn cyhoeddi adroddiad ar waith yr awdurdod lleol. Os yw darparwr gwaith ieuenctid y sector gwirfoddol neu ddarparwr arall gwaith ieuenctid yn derbyn cyllid gan awdurdod lleol i ddarparu gwasanaethau, gallem ymweld â'u lleoliad gwaith ieuenctid i arsylwi sesiwn gwaith ieuenctid fel rhan o arolygiad gwaith ieuenctid yr awdurdod lleol yn gyffredinol. Gellir sôn am waith darparwr y sector gwirfoddol yn yr adroddiad lle mae'n enghraifft gadarnhaol. |
| Arolygiad thematig | Rydym hefyd yn cynnal arolygiadau thematig, lle rydym yn casglu tystiolaeth am ffocws penodol ar draws sampl o ddarparwyr gwaith ieuenctid. Bydd agweddau penodol ar y fframwaith arolygu yn cael eu defnyddio i werthuso'r maes ffocws ar gyfer yr adroddiad thematig. Byddem yn ysgrifennu adroddiad cyffredinol a gallem sôn am arfer ddiddorol o leoliadau unigol yn yr adroddiad. |

## Egwyddorion arolygu

Bydd arolygwyr:

- yn sicrhau bod ansawdd arolygu'n uchel ac yn ymatebol i anghenion yr holl bobl ifanc 11-25 oed
- yn sicrhau bod gwerthusiadau'n gadarn, yn ddibynadwy, yn ddilys ac wedi'u seilio ar dystiolaeth uniongyrchol
- yn cynnwys pobl ifanc a darparwyr yn llawn yn y broses arolygu, gan gynnwys rhoi cyfle i'r darparwr ddewis enwebai
- yn defnyddio blaenoriaethau gwella'r darparwr fel man cychwyn ar gyfer yr arolygiad, ac yn nodi meysydd allweddol i ymchwilio iddynt er mwyn gwerthuso dilysrwydd ei ganfyddiadau
- yn cynnwys arolygwyr cymheiriaid yn y broses arolygu
- yn sicrhau cyn lleied o ofynion ag y bo modd ar gyfer dogfennaeth a pharatoi gan y darparwr
- yn caffael safbwynt pobl ifanc, staff (gwaith am dâl a gwaith di-dâl, rhan-amser ac amser llawn) a rhanddeiliaid, gan gynnwys safbwynt cyrff rheoli ac ymddiriedolwyr
- yn cymhwyso egwyddor o gydraddoldeb i'r Gymraeg a'r Saesneg yn ein holl waith arolygu, gan ddarparu gwasanaethau dwyieithog pryd bynnag y byddant yn briodol
- yn adeiladol wrth nodi a chefnogi darparwyr gwaith ieuenctid gyda'n hagweddau pwysig neu feysydd sydd angen eu gwella

## Ein meddylfryd

Mae ymagwedd Estyn tuag at arolygu fel a ganlyn:

**Teg a diduedd** – mae hyn yn golygu ein bod yn gweithio i fod yn annibynnol, yn wrthrychol ac yn gytbwys. Rydym yn gadarn ac yn gyson yn ein gwaith. Rydym yn pwyso a mesur y dystiolaeth a'i harwyddocâd i gynnig barn onest, gredadwy a chywir o gryfderau a meysydd i'w gwella'r darparwr.

**Cefnogol** - rydym yn gweithio i lywio darparwyr i roi gwelliannau ar waith sydd o fudd i bobl ifanc. Rydym yn annog arloesedd ac yn cydnabod bwriadau da. Mae ein hymagwedd yn gyfeillgar ond yn broffesiynol bob amser. Rydym yn cefnogi diwygiadau addysg. Rydym yn gweithio'n galed i feithrin perthnasoedd ystyrlon â darparwyr statudol a'r sector gwirfoddol, a sefydliadau lleol a rhanbarthol.

**Myfyriol** – rydym yn eangfrydig. Rydym yn gwrando ar ystod eang o randdeiliaid ac yn myfyrio ar eu hymatebion. Rydym yn feddylgar, yn bwyllog ac yn ofalus. Rydym yn cynllunio cyfleoedd i feddwl yn ofalus am ganfyddiadau'r arolygiad a'u trafod ag aelodau eraill o'r tîm.

**Tryloyw** – rydym yn wybodus ac yn cyfathrebu'n glir, yn uniongyrchol ac yn gryno. Rydym yn defnyddio methodolegau arolygu effeithlon ac effeithiol i ymateb i sefyllfa unigryw'r bartneriaeth. Rydym yn cynllunio gweithgarwch arolygu ac yn adrodd ar gryfderau a meysydd i'w gwella mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu amgylchiadau penodol pob partneriaeth unigol. O ganlyniad, mae ein gweithredoedd yn hybu ymddiriedaeth a pharch.

## Disgwyliadau o ran arolygwyr

Mae ein cod ymddygiad yn esbonio sut rydym yn ymgorffori'r meddylfryd arolygu trwy eu gweithredoedd. Dylai arolygwyr gynnal y safonau uchaf posibl yn eu gwaith. Rhaid i bob arolygydd fodloni'r safonau disgwyliedig o god ymddygiad Estyn.

Wrth gynnal yr arolygiad, bydd arolygwyr:

- yn rhoi pobl ifanc yn ganolog i'r broses
- yn gwrtais ac yn broffesiynol
- yn gwneud eu gwaith ag uniondeb a sensitifrwydd priodol
- yn cymryd yr holl gamau rhesymol i atal gorbryder gormodol a lleihau straen yn ystod gweithgarwch arolygu
- yn adrodd yn onest, yn deg ac yn ddiduedd
- yn cyfathrebu'n glir ac yn agored
- yn gweithredu er lles pennaf y bobl ifanc
- yn parchu cyfrinachedd yr holl wybodaeth sy'n dod i law yn ystod eu gwaith

Mae'n bwysig ein bod yn gwerthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth ar sail eu heffaith, ac nid ar sail unrhyw ffafriaethau am ddulliau penodol. Yr hyn sy'n allweddol i'r gwerthusiadau yw p'un a yw'r dulliau a'r drefniadaeth yn addas at y diben o ran cynorthwyo'r holl bobl ifanc i gyflawni'r deilliannau gorau posibl, gan gynnwys lefelau lles cryf.

Dylai arolygwyr roi gwybod i Estyn am unrhyw achosion canfyddedig neu wirioneddol o wrthdaro buddiannau cyn gynted ag y maent yn derbyn hysbysiad eu bod yn rhan o dîm arolygu'r bartneriaeth.

## Disgwyliadau o ran darparwyr gwaith ieuenctid

Er mwyn i arolygu a rheoleiddio fod yn adeiladol a buddiol, mae'n bwysig fod arolygwyr a darparwyr yn sefydlu a chynnal amgylchedd gweithio proffesiynol yn seiliedig ar gwrteisi, parch ac ymddygiad proffesiynol ar y ddwy ochr. Rydym yn disgwyl i arolygwyr gynnal Cod Ymddygiad Estyn, ond rydym hefyd yn disgwyl i ddarparwyr a'u partneriaid:

- fod yn gwrtais ac yn broffesiynol
- darparu tystiolaeth sy'n galluogi arolygwyr i gynnal yr arolygiad mewn ffordd agored, onest a gwrthrychol
- defnyddio systemau electronig Estyn ar gyfer rheoli arolygiadau, yn ôl yr angen
- darparu tystiolaeth a fydd yn galluogi arolygwyr i adrodd yn onest, yn deg ac yn ddibynadwy am y bartneriaeth
- cynnal deialog bwrpasol gyda'r arolygydd cofnodol ac arolygwyr eraill
- cydnabod y gallai fod angen i arolygwyr arsylwi arfer a siarad â phobl ifanc, staff, a rhanddeiliaid eraill heb i reolwr neu uwch arweinydd fod yn bresennol
- tynnu sylw'r arolygydd cofnodol at unrhyw bryderon am yr arolygiad mewn modd amserol ac addas, trwy'r enwebai neu'r uwch reolwr
- gweithio gydag arolygwyr i leihau tarfu a straen trwy gydol yr arolygiad
- sicrhau iechyd a diogelwch arolygwyr tra byddant ar eu safle
- cynnal cyfrinachedd cyfarfodydd a chanfyddiadau arolygu hyd nes cyhoeddi'r adroddiad yn derfynol

Dylid tynnu sylw'r tîm at unrhyw gamerâu cylch cyfyng ac offer recordio yn ystod y cyfarfod tîm cychwynnol.

Adeg yr hysbysiad am yr arolygiad, dylai darparwyr gwaith ieuenctid adolygu cyfansoddiad y tîm arolygu. Cyfrifoldeb y darparwr yw amlygu unrhyw achosion canfyddedig neu wirioneddol o wrthdaro buddiannau cyn dechrau eu harolygiad.

## Disgwyliadau o ran swyddogion awdurdodau lleol a darparwyr y sector gwirfoddol

Disgwylir i swyddogion sy'n mynychu adborth gydymffurfio â'r un egwyddorion am ddisgwyliadau o ran darparwyr.

## Y Gymraeg

Byddwn yn cynnal unrhyw ymgysylltu, gan gynnwys arolygiadau, yn unol â'n Polisi Iaith Gymraeg, sydd ar gael ar ein gwefan.

## Diogelu, yn cynnwys materion iechyd, diogelwch a lles

Bydd arolygwyr yn cynnal arolygiadau yn unol ag arweiniad Estyn ar arolygu diogelu. Os byddant yn sylwi ar unrhyw beth sydd, yn eu barn nhw, yn achosi perygl i ddiogelwch staff, ymwelwyr neu bobl ifanc, dylai arolygwyr rybuddio rheolwyr yn y ddarpariaeth.

Os daw arolygydd yn ymwybodol o honiad / amheuaeth ynghylch diogelu sy'n ymwneud â phlentyn, unigolyn ifanc neu oedolyn bregus, dylai ddilyn y gweithdrefnau sydd wedi'u hamlinellu yn fersiwn gyfredol 'Polisi a gweithdrefnau Estyn ar gyfer diogelu', sydd ar gael ar ein gwefan.

Ym mhob achos, dylai arolygwyr gofnodi manylion am y pryder. Dylent roi gwybod i'r Arolygydd Cofnodol (ACof). Wedyn, dylai'r ACof gysylltu ag un o swyddogion arweiniol diogelu Estyn. Bydd y swyddog arweiniol yn rhoi gwybod i'r ACof am y camau nesaf i'w cymryd, gan gynnwys beth i'w gofnodi yn sail y dystiolaeth ar gyfer y maes arolygu priodol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw risgiau'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a lles pobl ifanc. Bydd y swyddog hefyd yn rhoi gwybod i'r ACof p'un a ddylid rhannu'r pryder â'r darparwr ai peidio.

Lle mae'r risgiau hyn yn peri pryder difrifol yn ystod gweithgarwch arolygu craidd, dylai arolygwyr gynnwys sylw byr yn nhestun yr adroddiad ac argymhelliad yn yr adroddiad.

Byddwn yn anfon llythyr lles at y darparwr a'r awdurdod lleol a darparwyr y sector gwirfoddol, lle bo'n briodol, yn gofyn iddynt amlinellu sut byddant yn mynd i'r afael â'r diffyg.

Os bydd arolygydd yn nodi pryder ynghylch diogelwch ar y safle, dylai roi gwybod i'r ACof. Os yw'r ACof yn ystyried y gellir mynd i'r afael â'r pryder yn gyflym, dylai roi gwybod i'r darparwr y bydd disgwyl iddo ddarparu tystiolaeth fod y pryder wedi cael ei ddatrys o fewn wythnos.

Os yw'r pryder(on) yn fwy difrifol ac na ellir mynd i'r afael ag ef yn gyflym, dylai'r ACof roi gwybod i'r ACof a fydd yn cyflwyno llythyr iechyd a diogelwch i ddarparwr yr awdurdod lleol ac/neu ddarparwr y sector gwirfoddol. Yr ACof fydd â'r cyfrifoldeb i sicrhau yr eir i'r afael â'r mater(ion). Os nad eir i'r afael â mater llai arwyddocaol yn foddhaol o fewn wythnos, yna bydd y broses hon yn berthnasol hefyd.

## Ymagwedd at arolygu

Fel arfer, bydd arolygiadau o ddarpariaeth gwaith ieuenctid, yn y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol, yn cael eu cynnal dros gyfnod wythnos waith 5 niwrnod. Fodd bynnag, gellir cynnal arolygiadau dros gyfnod hirach neu ganolbwyntio ar rai agweddau ar y ddarpariaeth, pan fo'n briodol, o ganlyniad i ffactorau fel maint y darparwr/y ddarpariaeth a/neu wasgariad daearyddol.

Bydd darparwyr yn cael gwybod am hyn pan fyddant yn derbyn hysbysiad am arolygiad. (Gweler 'Cysylltu â'r darparwr cyn arolygiad' ar dudalen 15).

Byddwn yn gweithio gyda darparwyr i sicrhau bod y gweithgarwch arolygu yn gymesur â'r ddarpariaeth, yn enwedig o ran sefydliadau'r sector gwirfoddol.

Y man cychwyn ar gyfer arolygu yw asesiad y darparwr o'i berfformiad a'i flaenoriaethau ei hun, wedi'i gefnogi gan dystiolaeth berthnasol. Ni fydd arolygwyr yn arolygu pob agwedd ar y gwaith yn fanwl yn ystod arolygiad craidd. Byddant yn samplu tystiolaeth i brofi asesiad y darparwr ei hun o'i waith.

Mae'r cynnydd a wna pobl ifanc o'u mannau cychwyn a'r deilliannau y maent yn eu

cyflawni yn fesurau allweddol o ansawdd y gwaith ieuenctid y maent wedi cymryd rhan ynddo ac o effeithiolrwydd arweinyddiaeth a rheolaeth y ddarpariaeth. Bydd arolygu'n canolbwyntio ar anghenion pobl ifanc ac effaith y ddarpariaeth ar gefnogi eu datblygiad personol a chymdeithasol. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r sector i ddatblygu ymagweddau at fesur effaith gwaith ieuenctid.

Bydd cyfnod yr arolygiad a nifer yr arolygwyr yn amrywio yn ôl maint y darparwr / y ddarpariaeth.

Byddwn yn cynnal arolygiadau yn unol â'n Polisi Iaith Gymraeg, sydd ar gael ar ein gwefan www.estyn.llyw.cymru.

## Yr Ystafell Arolygu Rithwir

Byddwn yn defnyddio system electronig o'r enw'r 'Ystafell Arolygu Rithwir' (YAR) i reoli llawer o agweddau ar yr arolygiad. System ar y we yw hon sy'n caniatáu i ddarparwyr lanlwytho gwybodaeth cyn yr arolygiad, a lawrlwytho arweiniad gennym ni ar y broses arolygu.

Rydym yn sicrhau diogelwch gwybodaeth sy'n cael ei lanlwytho trwy gynnal profion hacio ar yr YAR. Mae'r profion hyn yn gwerthuso diogelwch systemau. Rydym yn nodi ac yn cymryd unrhyw gamau i atal mynediad heb awdurdod. Mae gan holl ddefnyddwyr system YAR Estyn enw defnyddiwr a chyfrinair, sydd wedi eu cofnodi ac yn cael eu cynnal yn ddiogel o fewn cyfeiriadur gweithredol. Hefyd, mae gan y system nodweddion i sicrhau bod cyfrineiriau'n cael eu diogelu, yn cynnwys darganfod bygythiadau a mynediad amodol.

## Y tîm arolygu

Bydd timau arolygu'n cael eu harwain gan arolygydd cofnodol (AEF), a bydd aelodau eraill o'r tîm yn dod o blith AEF, arolygwyr cymheiriaid (o ddarparwyr gwaith ieuenctid, yn cynnwys darparwyr a gynhelir y sector gwirfoddol) neu arolygwyr ychwanegol (AY). Gallai arolygwyr ychwanegol fod ar secondiad neu dan gontract i Estyn.

Mae'r arolygydd cofnodol yn rheoli'r tîm arolygu. Yr ACof yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer pawb sy'n ymwneud â'r arolygiad.

Byddwn yn gwahodd darparwyr i ddewis uwch aelod o staff, o'r enw'r 'enwebai', i weithio gyda'r tîm arolygu. Yn ymarferol, mae bron pob un o'r darparwyr yn derbyn y gwahoddiad, ond nid yw'n ofyniad. Dylai'r enwebai fod â swydd ar lefel ddigon uchel i fod yn gyswllt rhwng y darparwr a'r tîm arolygu, ond does dim angen iddo fod yn arweinydd y darparwr. Gall darparwyr droi at yr arweiniad ar gyfer enwebeion ar baratoi ar gyfer yr arolygiad o ddolenni o fewn y ffurflen cyswllt cychwynnol (FfCC), sy'n cael ei llenwi gan y cydlynydd arolygu (CydAr) ac ar gael trwy'r YAR.

## Cysylltu â'r darparwr cyn yr arolygiad

Fel arfer, bydd y darparwr yn cael 15 diwrnod gwaith o rybudd am yr arolygiad. Gallai'r cyfnod hwn fod yn hirach yn achos gweithgarwch arolygu hydredol.

Ar ôl yr hysbysiad, byddwn yn cysylltu â'r darparwr dros y ffôn i wneud y trefniadau ar gyfer yr arolygiad. Cydlynwyr arolygu (CydAr) yn Estyn fydd yn gwneud y cyswllt cychwynnol gyda darparwyr. Yn ystod y drafodaeth hon, bydd y cydlynydd arolygu:

- yn esbonio diben yr arolygiad ac yn trafod rhaglen amlinellol ar gyfer yr arolygiad
- yn hysbysu'r darparwr am y math o arolygiad
- yn trefnu cyfarfod cyn-arolygiad rhwng yr arolygydd cofnodol a'r enwebai / pennaeth y darparwr
- yn trafod y wybodaeth benodol sydd ei hangen cyn yr arolygiad, gan gynnwys ei asesiad diogelu presennol. Gallai'r darparwr ddefnyddio templed hunanasesu diogelu Estyn, os yw'n dymuno
- yn gofyn a oes unrhyw faterion neu risgiau y dylai'r tîm fod yn ymwybodol ohonynt, ac yn gofyn am sesiwn friffio gyffredinol i'r tîm ar ddechrau'r arolygiad yn ymwneud ag iechyd a diogelwch
- yn canfod a yw'r darparwr yn dymuno cael enwebai ac, os ydyw, yn cytuno ar rôl yr enwebai ac yn esbonio'r broses ar gyfer cwblhau arweiniad yr enwebai
- yn trefnu cyfarfod ar ddechrau'r arolygiad gyda'r enwebai i ddarparu brîff ar iechyd a diogelwch ar gyfer y tîm
- yn trefnu cyfarfod ar ddechrau'r arolygiad i'r darparwr amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer gwella a'i gyfnod datblygu presennol
- yn darparu dolenni ac arweiniad ar gyfer llenwi'r holiaduron cyn-arolygiad ar-lein ar gyfer pobl ifanc a staff
- yn cytuno ar drefniadau ar gyfer trefnu cyfarfod gyda sefydliadau partneriaethau (lle bo'n briodol)
- yn sicrhau bod gweithdrefnau cytûn i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon neu gŵynion a all godi yn ystod yr arolygiad
- yn gwneud unrhyw drefniadau domestig, fel ystafell sylfaen ar gyfer yr arolygwyr, parcio a chysylltiad â'r rhyngrwyd
- yn gwneud trefniadau ar gyfer adrodd yn ôl ar ganfyddiadau'r arolygiad
- yn cytuno ar y trefniadau ar gyfer llenwi'r holiadur ôl-arolygiad
- yn rhoi gwybod i'r darparwr, drwy'r ffurflen cyswllt cychwynnol, am drefniadau allweddol yr arolygiad

Bydd y Cydlynydd Arolygu yn gofyn am wybodaeth gan y darparwr drwy'r Ystafell Arolygu Rithwir cyn gynted ag y bo modd ar ôl yr hysbysiad ffurfiol am yr arolygiad. **Byddwn ond yn gofyn i ddarparwyr rannu'r cynlluniau, yr asesiadau a'r gwerthusiadau y maent yn eu defnyddio'n rheolaidd i adrodd i uwch reolwyr, ymddiriedolwyr neu gyrff llywodraethol.** Rydym yn ystyried bod cymesuredd yn egwyddor allweddol o ran yr hyn y gellir ei ddisgwyl yn rhesymol gan ddarparwyr trwy ystyried ffactorau perthnasol fel natur a maint y ddarpariaeth.

- gwybodaeth gefndir allweddol am y darparwr
- cynlluniau datblygu ansawdd ac adroddiadau hunanasesu diweddaraf y darparwr, yn cynnwys ymagweddau'n ymwneud â chydraddoldeb a chynnwys cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc. **Nid ydym yn disgwyl i'r darparwr baratoi adroddiad hunanasesu ar gyfer arolygiad, a bydd yn feirniadol o arweinwyr os caiff adroddiad o'r fath ei greu at y diben hwn yn unig.**
- niferoedd y bobl ifanc sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth
- manylion am amserlenni'r ddarpariaeth, lleoliadau a manylion cyswllt ar gyfer cyfnod yr arolygiad. Dylai hyn gynnwys yr holl ddarpariaeth gwaith ieuenctid gydag unrhyw sefydliadau eraill a ariennir yn gyfan gwbl neu'n rhannol gan y darparwr gwaith ieuenctid, ac/neu a ddarperir mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, e.e. cyfiawnder ieuenctid, gwasanaethau cymdeithasol
- pan ddarperir gwaith ieuenctid fel rhan o sefydliad ehangach sydd hefyd yn

darparu mathau eraill o wasanaethau ymgysylltu ag ieuenctid neu wasanaethau eraill, efallai y bydd angen cyd-destun sefydliadol ehangach, ond ni fydd y sefydliad cyfan yn cael ei arolygu
- yn achos sefydliadau a ariennir gan grant y sefydliad gwaith ieuenctid gwirfoddol statudol neu grant y Strategaeth Gwaith Ieuenctid, byddem yn gofyn am y wybodaeth gyfatebol
- trefnu dyddiad (fel y cytunwyd gyda'r ACof) ar gyfer y cyfarfod cynllunio cychwynnol

Pan fyddwn yn rhoi gwybod i ddarparwyr am yr arolygiad, byddant yn cael gwybodaeth am sut i gynnal arolwg cyfrinachol ar-lein o bobl ifanc. Byddwn hefyd yn darparu holiadur cyn-arolygiad ar-lein ar gyfer gweithwyr ieuenctid, sefydliadau partner a phobl ifanc. Bydd canlyniadau'r arolygon yn ffurfio rhan o'r dystiolaeth cyn-arolygiad.

Bydd y tîm hefyd yn ystyried yr arolwg/arolygon diweddaraf o amgyffrediadau pobl ifanc a gynhaliwyd gan y darparwr.

Yn ystod yr arolygiad, bydd arolygwyr yn ymgymryd ag ystod o weithgareddau a allai gynnwys y canlynol, lle bo'n briodol; cyfweld â sampl o bobl ifanc, a gweithwyr ieuenctid a staff cymorth fel rhan o'u proses casglu tystiolaeth.

## Cynllunio'r arolygiad a pharatoi'r tîm

Bydd yr arolygydd cofnodol yn cynllunio'r arolygiad ac yn dyrannu cyfrifoldebau i aelodau o'r tîm arolygu, gan ystyried blaenoriaethau gwella a nodwyd gan y darparwr ac adroddiadau hunanasesu lle maent ar gael, ac unrhyw wybodaeth arall a ddelir gan Estyn eisoes. Ar sail y wybodaeth sy'n dod i law, bydd yr arolygwyr cofnodol yn cynllunio'u harsylwadau o weithgareddau. Bydd y rhain yn adlewyrchu ystod y ddarpariaeth a gynigir, gan gynnwys sesiynau a gweithgareddau wyneb yn wyneb ac ar-lein, lle maent ar gael.

## Yn ystod yr arolygiad

### Y cyfarfod tîm cychwynnol

Yng nghyfarfod cychwynnol y tîm arolygu, dylai aelod o staff y darparwr roi brîff ar iechyd a diogelwch. Dylai'r darparwr gyflwyno datganiad sefyllfa byr ar ei flaenoriaethau strategol a'i gyfnod datblygu presennol. Ar ôl hynny, dylai'r tîm drafod gydag uwch arweinwyr y blaenoriaethau ar gyfer gwella gwasanaethau a nodwyd eisoes gan y darparwr a'r cynnydd y mae'n ei wneud yn ei waith gwella. Bydd yr arolygydd cofnodol yn cadarnhau'r trefniadau hyn gyda'r darparwr yn ystod yr alwad ffôn cyn yr arolygiad.

Bydd arolygwyr yn samplu, yn profi ac yn dilysu blaenoriaethau'r darparwr ei hun a'i werthusiadau o'i gryfderau a'i feysydd i'w gwella ac unrhyw gryfderau eraill a meysydd eraill i'w gwella y mae'r arolygydd cofnodol yn eu nodi. Bydd arolygwyr hefyd yn ystyried gwerthusiad o'r ddarpariaeth gan bobl ifanc. Bydd y tîm hefyd yn ystyried y dystiolaeth y mae angen i arolygwyr ei hadolygu. Bydd hyn yn cynnwys arsylwadau o sesiynau, samplau o unrhyw waith neu gyflawniadau wedi'u dogfennu a gyflawnwyd gan bobl ifanc, lle bo'n briodol, a chyfweliadau â phobl ifanc, staff, a phartneriaid a rhanddeiliaid eraill.

## Casglu ac adolygu tystiolaeth arolygu

Bydd y tîm yn cynllunio'r arolygiad fel y gallant ymdrin â'r holl ofynion adrodd perthnasol yn y tri maes arolygu. Bydd y tîm yn sicrhau bod ganddynt ddigon o amser i adolygu'r dystiolaeth allweddol sydd ei hangen arnynt i wneud eu gwerthusiadau. Mae'r prif fathau o dystiolaeth fel a ganlyn:

- tystiolaeth ddogfennol, gan gynnwys gwybodaeth am effaith gweithgareddau gwaith ieuenctid ar bobl ifanc, samplau o waith pobl ifanc, lle bo'n briodol
- ymatebion i arolygon gan bobl ifanc, staff, a phobl eraill lle bo'n berthnasol
- trafodaethau â phobl ifanc, gweithwyr ieuenctid a rheolwyr staff eraill, ymddiriedolwyr, partneriaid a rhanddeiliaid allweddol eraill

Bydd y tîm yn defnyddio arsylwadau uniongyrchol o weithgareddau pobl ifanc, lle bynnag y bo modd, i gasglu tystiolaeth i ategu eu gwerthusiadau. Gallai arolygwyr ystyried amrywiaeth o gyfryngau i ddangos tystiolaeth o gyflawniadau pobl ifanc hefyd.

Bydd arolygwyr yn ymgymryd ag ystod o weithgareddau i gasglu tystiolaeth ar gyfer eu gwerthusiad o gyfranogiad a deilliannau pobl ifanc ac ansawdd y ddarpariaeth. Gallai hyn gynnwys arsylwadau o sesiynau, gan gynnwys samplu sesiynau ar-lein, sgyrsiau â phobl ifanc am eu cyfranogiad a'u profiadau, a thrafodaethau ag aelodau staff unigol am gynnydd a datblygiad pobl ifanc a sut maent yn cynllunio sesiynau i ddiwallu eu hanghenion.

Mae llais pobl ifanc yn ffynhonnell dystiolaeth allweddol ar gyfer arolygwyr. Bydd trafodaethau â phobl ifanc yn darparu cyfle i archwilio effaith gwaith ieuenctid ar eu datblygiad personol a dysgu ehangach sy'n cynnwys caffael gwybodaeth a medrau newydd. Bydd hefyd yn helpu arolygwyr i gael amcan o ba mor dda y mae'r darparwr yn cynorthwyo pobl ifanc ac yn cyfrannu at eu lles, yn eu barn nhw.

Gallai arolygwyr ystyried sut mae pobl ifanc yn gwneud cynnydd o'u mannau cychwyn.

Bydd angen i'r tîm ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid am y darparwr a phrofi dilysrwydd y safbwyntiau hynny yn ystod yr arolygiad.

## Cofnodi tystiolaeth arolygu

Bydd arolygwyr yn defnyddio ffurflenni amrywiol i nodi a choladu eu canfyddiadau a'u gwerthusiadau.

Ble bynnag y bo modd, bydd arolygwyr yn llenwi eu ffurflenni yn electronig fel rhan o system electronig Estyn ar gyfer casglu, coladu a chofnodi canfyddiadau'r arolygiad.

## Cyfarfodydd tîm

Prif ddiben cyfarfodydd tîm yw llunio safbwynt cywir, dibynadwy, dilys a chorfforaethol am gyfranogiad, datblygiad a deilliannau pobl ifanc ac ansawdd darpariaeth ac arweinyddiaeth. Bydd cyfarfodydd yn cynnig cyfleoedd i arolygwyr:

- ystyried y gwerthusiadau ym mhrosesau cynllunio datblygu ansawdd a hunanasesu'r darparwr
- trafod materion sy'n dod i'r amlwg

- adolygiadau ymweliadau â phobl ifanc
- datrys materion cyn-arolygiad a chwestiynau sy'n dod i'r amlwg
- nodi unrhyw fylchau yn sail y dystiolaeth
- ystyried prif ganfyddiadau'r arolygiad ac unrhyw argymhellion

### Deialog broffesiynol

Yn ystod neu ar ddiwedd cyfnod arsylwi sesiwn, dylai arolygwyr gael deialog broffesiynol fer gyda'r gweithwyr ieuenctid sy'n cymryd rhan yn y gweithgaredd.

Dylai prif ffocws y drafodaeth fod ar y bobl ifanc, y cynnydd a wnânt a'r deilliannau y maent yn eu cyflawni yn ystod y gweithgaredd. Dylai'r arolygydd bwysleisio mai canfyddiadau dros dro, sy'n dod i'r amlwg yw'r rhain ar un agwedd ar sail y dystiolaeth ac y gellir diwygio'r rhain, wrth fyfyrio, ar ôl adolygu gwaith / deilliannau pobl ifanc neu siarad â phobl ifanc, neu o ganlyniad i gymedroli o fewn y tîm. Dylai arolygwyr geisio canolbwyntio ar unrhyw gryfderau neu feysydd i'w datblygu o ran y gweithgaredd penodol a welwyd.

### Adborth ffurfiol

Ar ddiwedd y rhan o'r arolygiad ar y safle, bydd y tîm yn rhoi adborth llafar i arweinwyr y darparwr. Byddwn hefyd yn gwahodd cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru. Dylai'r adborth ganolbwyntio ar y prif werthusiadau ar gyfer pob un o'r tri maes arolygu a'r rhesymau am y rhain.

Mae'r cyfarfod adborth yn cynnig cyfle i arweinwyr glywed a myfyrio ar y gwerthusiadau. Dylai'r adborth ganolbwyntio ar y cryfderau a'r meysydd i'w gwella, a'r ffactorau sy'n cyfrannu atynt. Dylai'r arolygydd cofnodol esbonio wrth y darparwr y gellir cywiro materion ffeithiol, ac y gellir egluro gwerthusiadau, ond nad ydynt yn agored i'w trafod.

Yn ystod pob arolygiad craidd, bydd y tîm arolygu'n ystyried a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar y darparwr. Bydd yr arolygydd cofnodol yn rhoi gwybod i'r darparwr os oes angen unrhyw weithgarwch dilynol. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth am drefniadau gweithgarwch dilynol yn rhan 2 yr arweiniad hwn.

Yn ystod yr arolygiad, bydd y tîm yn ystyried hefyd a oes unrhyw arfer effeithiol yn y darparwyr sy'n werth i ddarparwyr eraill ei hystyried a'i hefelychu. Yn yr achosion hyn, gallem ddarparu cameos o'r gwaith hwn yn nhestun yr adroddiad. Bydd yr arolygydd cofnodol hefyd yn gofyn i'r darparwr baratoi astudiaeth (neu astudiaethau) achos i'w lledaenu ar wefan Estyn.

Mae'r holl werthusiadau a chanfyddiadau sy'n cael eu hadrodd yn ystod arolygiad yn rhai dros dro ac yn amodol ar gael eu safoni a'u dilysu gan PAEF. Maent yn gyfrinachol i staff, llywodraethwyr, ymddiriedolwyr, aelodau etholedig a byrddau rheoli'r darparwr (lle bo'n briodol). Ni ddylid eu cyfleu y tu hwnt i'r grŵp hwn, gan gynnwys drwy gyfryngau cymdeithasol, nes i ni gyhoeddi'r adroddiad ar ein gwefan.

### Cwynion am y modd y cynhaliwyd yr arolygiad

Os bydd unrhyw faterion yn ymwneud â'r modd y cynhaliwyd yr arolygiad yn gyffredinol neu ymddygiad arolygwyr unigol, yna dylai'r darparwr, trwy'r enwebai, godi'r rhain yn uniongyrchol â'r arolygydd cofnodol, a hynny cyn gynted ag y bo

modd. Ni ddylai'r darparwr aros tan ar ôl yr arolygiad; dylai godi unrhyw faterion yn ystod yr arolygiad ar y safle. Yn aml, bydd materion yn codi o ganlyniad i gamddealltwriaeth ac, fel arfer, gellir datrys y rhain yn gyflym ac yn foddhaol yn y bartneriaeth yn fuan wedi iddynt ddigwydd.

Ceir arweiniad ar weithdrefnau Estyn ar gyfer ymdrin â chwynion ar wefan Estyn.

## Ar ôl yr arolygiad

### Yr adroddiad arolygu

Mae'r arolygydd cofnodol yn gyfrifol am lunio adroddiad arolygu terfynol sy'n glir i gynulleidfa leyg, i bobl ifanc, ac yn ddefnyddiol i'r darparwr.

Wrth ysgrifennu adroddiadau, dylai arolygwyr ystyried arweiniad ysgrifennu Estyn, sydd ar gael ar ein gwefan, sef www.estyn.llyw.cymru.

Byddwn yn cyhoeddi adroddiadau'n ddwyieithog lle mae darparwyr wedi gofyn i ni wneud hynny, yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg Estyn.

Rydym yn seilio strwythur yr adroddiad arolygu ar feysydd arolygu darparwr gwaith ieuenctid, fel yr amlinellir yn y ddogfen 'Beth rydym yn ei arolygu' a bydd yr adroddiad ar y ffurf ganlynol:

**Ynglŷn â'r darparwr gwaith ieuenctid**

**Trosolwg**

**Argymhellion**

**Beth sy'n digwydd nesaf**

**Prif ganfyddiadau**

1 Sut mae gwaith ieuenctid yn helpu pobl ifanc i gyflawni eu potensial?
2 Beth gall pobl ifanc ei ddisgwyl gan ddarpariaeth gwaith ieuenctid
3 Arwain a gwella

**Sail dystiolaeth yr arolygiad**

Byddwn yn llunio'r adroddiad o fewn graddfeydd amser statudol neu gytunedig.

### Gwirio cywirdeb ffeithiol

Byddwn yn rhoi drafft hwyr o'r adroddiad i'r darparwr er mwyn helpu gwirio cywirdeb ffeithiol y cynnwys. Fel arfer, bydd gan y darparwr bum niwrnod gwaith i ystyried yr adroddiad drafft a nodi unrhyw wallau ffeithiol.

Mae'r gwiriad cywirdeb ffeithiol yn canolbwyntio ar ddatrys unrhyw anghywirdeb ffeithiol yn yr adroddiad arolygu. Nid yw'n canolbwyntio ar y canfyddiadau na'r gwerthusiadau. Ceir arweiniad pellach i ddarparwyr ar natur a chwmpas y gwiriad hwn ar ein gwefan.

Dylai'r darparwr godi unrhyw gŵynion am y modd y cynhaliwyd yr arolygiad yn ystod yr arolygiad ar y safle. Fodd bynnag, os yw'r darparwr yn parhau i fod â chwynion heb eu datrys, yna dylid eu cyfeirio at ein gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion ar ein gwefan. Mae ffocws y gweithdrefnau ar y modd y cynhaliwyd yr arolygiad ac nid ar y canfyddiadau neu'r gwerthusiadau a wnaed gan y tîm arolygu.

## Sicrhau ansawdd arolygiadau

Rydym wedi ymrwymo i:

- ddethol, hyfforddi, briffio, cefnogi a lleoli arolygwyr yn effeithiol, gan gynnwys arolygwyr cymheiriaid ac arolygwyr ychwanegol
- hyfforddiant, briffio a chymorth effeithiol i alluogi'r enwebai i ymgymryd â rôl weithredol
- deialog reolaidd â'r enwebai a'r rheolwr / prif swyddog ieuenctid yn ystod arolygiad
- meini prawf a systemau cofnodi sy'n cydymffurfio â'r fframwaith arolygu cyffredin a'r arweiniad
- adolygu a dadansoddi tystiolaeth yn ofalus
- darparu adborth llafar diamwys ar ganfyddiadau'r tîm ar gyfer pob maes arolygu
- adroddiadau clir, cywir ac wedi'u cyflwyno'n dda

Fel rhan o'n gweithdrefnau sicrhau ansawdd, rydym yn gwahodd darparwyr i lenwi holiadur ôl-arolygiad (HOA). Bydd yr holiadur ar gael i ddarparwyr yn yr YAR. Dylai darparwyr lenwi'r rhan gyntaf o'r HOA yn union ar ôl yr arolygiad ar y safle, a'i gyflwyno'n electronig i Estyn drwy system yr YAR. Gallant lenwi ail ran yr HOA ar ôl i'r adroddiad arolygu gael ei gyhoeddi, eto drwy system yr YAR.

Dylai darparwyr godi unrhyw bryderon am ymddygiad arolygydd yn ystod yr arolygiad cyn gynted ag y bo modd gyda'r arolygydd cofnodol.

Rydym yn cymhwyso proses sicrhau ansawdd gadarn i'n holl arolygiadau. Bydd yr arolygydd cofnodol yn sicrhau ansawdd gwaith y tîm, yn y lle cyntaf. Ar ôl diwedd y gweithgarwch ar y safle, caiff ansawdd yr adroddiad a'r sail dystiolaeth eu sicrhau gan AEF profiadol na fu'n rhan o'r arolygiad, hyd yn hyn. Mae'r sail dystiolaeth lawn yn cael ei chraffu a'i chyfateb i destun yr adroddiad er mwyn sicrhau bod y ddau ohonynt yn cyd-fynd â'i gilydd. Mae'r broses sicrhau ansawdd hefyd yn ystyried priodoldeb y lefel gweithgarwch dilynol a'r argymhellion sy'n deillio o'r arolygiad. Fel rhan o'r broses sicrhau ansawdd, gallai argymhellion gael eu diwygio, eu dileu neu eu hychwanegu.

Yna, ceir proses safoni pellach. Bydd y cyfarwyddwyr cynorthwyol priodol yn craffu ar y sail dystiolaeth a'r adroddiad. Pa bryd bynnag y bydd arolygiad yn arwain at weithgarwch dilynol statudol, yn ogystal â chyfarwyddwr cynorthwyol, bydd y cyfarwyddwr strategol yn safoni'r adroddiad ochr yn ochr â'r sail dystiolaeth ar ran PAEF. Mewn achosion prin, gallai'r broses safoni hon arwain at newid y lefel gweithgarwch dilynol.

Rydym hefyd yn sicrhau ansawdd sampl o arolygiadau trwy ymweliadau ar y safle. Mae ein trefniadau llawn ar gyfer sicrhau ansawdd arolygiadau ar gael ar ein gwefan www.estyn.llyw.cymru.

## Rhan 2: Trefniadau dilynol ar gyfer darparwyr gwaith ieuenctid sy'n achosi pryder sylweddol

Yn ystod yr holl arolygiadau craidd, bydd y tîm arolygu'n ystyried p'un a yw'r darparwr gwaith ieuenctid yn achosi pryder sylweddol a bod angen gweithgarwch dilynol arno. Dyma'r rhesymau posibl pam mae darparwr Gwaith Ieuenctid yn achosi pryder sylweddol:

- os nad yw'r darparwr gwaith ieuenctid yn cefnogi pobl ifanc i gymryd rhan mewn cyfleoedd ac ennill y medrau, y wybodaeth, y ddealltwriaeth, yr agweddau a'r gwerthoedd sydd eu hangen ar gyfer eu datblygiad a'u boddhad personol eu hunain, ac fel ffordd o gyfrannu at gymdeithas fel aelodau o grwpiau a chymunedau, yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol, ac yn rhyngwladol
- arfer o ansawdd gwael yn gyson ar draws y gwasanaeth
- pryderon difrifol ynghylch diogelu
- nid yw arweinwyr gwaith ieuenctid yn dangos y gallu i ysgogi'r gwelliannau angenrheidiol
- unrhyw bryder arall sy'n achosi risg sylweddol i les neu gyflawniad pobl ifanc

Rhaid i'r tîm arolygu adrodd fel y gwêl, a gallu cadarnhau ei farnau ar sail tystiolaeth gadarn. Dylai ein harolygwyr gofio bob amser bod y prif bwyslais mewn arolygiadau gwaith ieuenctid ar gyfranogiad a deilliannau ar gyfer pobl ifanc. Wrth farnu'r graddau y mae gan uwch arweinwyr y gallu i ysgogi gwelliannau, bydd angen i arolygwyr roi sylw i ba mor dda y mae'r arweinwyr hyn yn gwybod ac yn deall cryfderau'r gwasanaeth a'r meysydd i'w gwella. Dylai arolygwyr hefyd sefydlu a yw uwch arweinwyr yn dangos y gallu i fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella trwy ymdeimlad o ddiben a chyfeiriad y maent yn ei ddarparu, a thrwy benderfyniadau sy'n cael eu gwneud a'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â phryderon. Dylai trafodaethau ag uwch arweinwyr ddarparu tystiolaeth o sut maent yn mynd i'r afael â'r materion hyn ac a ydynt yn rhoi sylw i'r pethau cywir.

O dan yr holl amgylchiadau, mae'n hanfodol bod arolygwyr yn gwerthuso gwaith ieuenctid yn y cyd-destun y mae'n gweithredu ynddo ar y pryd, ac ni ddylent gael eu dylanwadu'n ormodol gan gynlluniau ar gyfer gwella a baratowyd yn ddiweddar nad ydynt wedi cael eu rhoi ar waith eto neu benodi staff yn ddiweddar. Mae hyn oherwydd, yn y ddau achos, ni fydd modd gweld effaith y gwelliannau eto, a rhaid i arolygwyr farnu ar sail deilliannau a thystiolaeth yn hytrach na chynlluniau neu fwriadau da.

Os bernir bod y darparwr gwaith ieuenctid yn peri pryder sylweddol, dylai'r ACof gymryd y camau canlynol:

- ffonio a rhoi gwybod i'r cydlynydd arolygu priodol cyn dweud wrth y darparwr gwaith ieuenctid am y farn, erbyn diwedd yr arolygiad, fan bellaf

- rhoi gwybod i'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol neu'r Cyfarwyddwr Strategol am y farn (a fydd yn rhoi gwybod i PAEF, yn ei dro)

- dweud wrth y Prif Weithredwr / cynrychiolydd â'r swydd ar y lefel uchaf ar ddiwedd yr arolygiad bod y tîm o'r farn fod y darparwr gwaith ieuenctid yn peri pryder sylweddol.

O fewn pum niwrnod o ddiwedd yr arolygiad, bydd yr ACof:

- yn llenwi'r adran berthnasol o'r Ffurflen Mewnbwn Adrodd (FfMA)
- yn rhoi'r FfMA gyflawn yn adran dogfennau'r arolygiad yn yr YAR
- yn rhoi gwybod i'r CydAr dynodedig trwy anfon neges e-bost a chopi ohoni i fewnflwch CydAr: cydar@estyn.llyw.cymru

Bydd PAEF, neu AEF yn gweithredu ar ran PAEF, yn craffu ar waith y tîm arolygu i wirio'r farn. Dylai'r ACof sicrhau bod yr holl dystiolaeth a gasglwyd yn ystod proses yr arolygiad ar gael i graffu arni. Mae gan PAEF y grym i alw am unrhyw wybodaeth sydd ei hangen. Os nad yw PAEF yn cytuno â barn yr ACof, bydd y rhesymau'n cael eu hesbonio, a byddant yn cael cyfle i drafod penderfyniad PAEF a diwygio'r adroddiad a'r crynodeb trwy ddileu'r farn fod yr awdurdod yn peri pryder. Ar ôl cwblhau'r broses briodol o ran her a chymedroli mewnol i sicrhau'r barnau, bydd PAEF yn hysbysu Gweinidogion Cymru fod y darparwr gwaith ieuenctid yn peri pryder sylweddol. Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai y byddwn yn aros hyd nes bydd y darparwr gwaith ieuenctid wedi ymateb i gam gwirio cywirdeb ffeithiol y broses.

## Ar ôl yr arolygiad

Yn achos Gwasanaethau Ieuenctid awdurdodau lleol, 'yn peri pryder sylweddol' fydd y categori gweithgarwch dilynol. Bydd gosod arolygiadau Gwasanaethau Ieuenctid gyda threfniadau GALIL ehangach yn golygu bod gweithgarwch dilynol unrhyw Wasanaeth Ieuenctid yn cael ei gydlynu yn unol ag unrhyw weithgarwch dilynol GALIL cyfatebol, ac ar yr un pryd, neu yn absenoldebau unrhyw drefniadau gweithgarwch dilynol ar gyfer y GALIL hwnnw, bydd yn cael ei gynnal 3 mis ar ôl yr arolygiad gwasanaeth ieuenctid.

Ar gyfer y sector gwirfoddol, y categori fydd 'yn achosi pryder sylweddol'. Bydd gweithgarwch dilynol yn cael ei gynnal naill ai 3 mis ar ôl yr arolygiad neu ar ôl cyfnod, ac mewn modd sy'n briodol i amgylchiadau'r sefydliad. Gallai gweithgarwch dilynol fod wyneb yn wyneb / ar leoliad neu'n rhithwir ac yn amodol ar ddisgresiwn, er enghraifft pan nad yw'n amharu ar effeithiolrwydd y broses arolygu neu'n achosi anghyfleustra i unrhyw un dan sylw.

## Trefniadau gwella ar ôl yr arolygiad

Tua thri mis ar ôl yr arolygiad, byddwn yn cadeirio cyfarfod gwella gydag uwch arweinwyr (swyddogion ac aelodau etholedig yn achos Gwasanaeth Ieuenctid awdurdod lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill, lle bo'n berthnasol). Yn achos gwasanaethau ieuenctid yn y sector gwirfoddol, bydd cynrychiolwyr allweddol sy'n gysylltiedig â'r sefydliad yn cael eu cynnwys fel y bo'n briodol ac yn berthnasol. Bydd

sefydliadau'n cael eu hysbysu'n ffurfiol am ddyddiad y cyfarfod gwella bedair wythnos ymlaen llaw.

Diben y cyfarfod fyddai gwirio bod y darparwr gwaith ieuenctid wedi deall yn llawn y rhesymau dros ganlyniad yr arolygiad a gwirio bod y sefydliad yn datblygu cynlluniau priodol i fynd i'r afael â diffygion. Ar ôl y cyfarfod, byddwn yn anfon llythyr at y Prif Weithredwr / unigolion yn y swydd lywodraethu ar y lefel uchaf. Bydd y llythyr hwn yn cadarnhau graddau'r sicrwydd a gafodd arolygwyr yn ystod y cyfarfod fod y sefydliad yn deall y rhesymau pam mae wedi peri pryder sylweddol. Gallai'r llythyr gynnwys argymhellion i'r sefydliad gefnogi mwy o welliant yn ei gynlluniau i fynd i'r afael â'r pryder.

Bydd ein harolygwyr cyswllt awdurdod lleol (ACALl) yn ofalus i gynnwys diweddariadau gwaith ieuenctid fel rhan o'r trefniadau i gadw cysylltiad yn barhaus ag awdurdodau lleol, aelodau etholedig a rhanddeiliaid. Bydd hyn yn cynnwys diweddariadau ar waith sefydliadau gwaith ieuenctid perthnasol y sector gwirfoddol lle mae'r rhain yn gweithio mewn partneriaeth â Gwasanaeth Ieuenctid yr Awdurdod Lleol ac yn derbyn unrhyw gyllid cyhoeddus at ddibenion gwaith ieuenctid.

## Ymweliadau monitro

Bydd Estyn yn cynnal cyfres o ymweliadau monitro ar ôl y cyfarfod am welliant a chynnydd. Bydd y trafodaethau yn y gynhadledd wella yn llywio'r meysydd ffocws ac amseriad yr ymweliadau dros y 18-24 mis dilynol. Yn achos y sector gwirfoddol, bydd yr ymweliadau hyn yn gymesur â maint a chapasiti'r sefydliad.

Ar gyfer pob ymweliad monitro, byddwn yn hysbysu'r sefydliad yn ffurfiol bedair wythnos ymlaen llaw, ond ein nod fydd sicrhau bod y dyddiad yn addas cyn cyflwyno'r hysbysiad hwn. Bydd maint y tîm a chynllun yr ymweliad yn cael eu teilwra i gyd-destun penodol y sefydliad a natur yr argymhelliad / argymhellion. Efallai y byddwn yn gwahodd cyrff perthnasol eraill i gyfrannu at yr ymweliad os yw'n briodol. Bydd YAR yn cael ei threfnu ar gyfer y cyfarfod, a fydd yn galluogi'r sefydliad i rannu ychydig o ddogfennau allweddol a gwybodaeth ategol sy'n berthnasol. Yn ystod yr ymweliad monitro, bydd arolygwyr yn ystyried pa mor dda y mae'r sefydliad wedi mynd i'r afael â'r argymhelliad / argymhellion a ystyrir.

Byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar ôl pob ymweliad monitro. Bydd yr adroddiad yn cynnwys gwerthusiad o gynnydd ar gyfer pob argymhelliad a ystyrir. Pan fydd y cynnydd yn ymddangos yn gadarn ac ar y llwybr cywir, byddwn yn cynnull ymweliad monitro a fydd yn gwerthuso pob un o'r argymhellion. Bydd hyn yn ein galluogi i gadarnhau p'un a yw'r sefydliad wedi gwneud cynnydd digonol i'w dynnu o'r categori gweithgarwch dilynol. Os nad yw arolygwyr yn fodlon â'r cynnydd, byddwn yn cynnull ymweliad monitro arall ar adeg briodol, gan ganiatáu digon o amser i'r darparwr ddangos cynnydd priodol.